

**CYNGOR CYMUNED TREWALCHMAI COMMUNITY COUNCIL
COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD 01/10/2018 YNG
NGHANOLFAN YR HENOED AM 7pm / MINUTES OF THE MEETING
HELD ON 01/10/2018 AT THE PENSIONERS' HALL AT 7pm.**

PRESENNOL: Cadeirydd Mr R G Parry, Is-gadeirydd Mrs E Jones, Mrs C Lloyd, Mrs S Jones, Ms M E Evans a Mr G Williams.	PRESENT: Chairman Mr R G Parry, Vice-chairman Mrs E Jones, Mrs C Lloyd, Mrs S Jones, Ms M E Evans and Mr G Williams.
1. Croeso ac ymddiheuriadau.	1. Welcome and apologies
Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriad am ei habsenoldeb oddi wrth Mrs A E Williams. Mrs Nia Dooley yn absennol am ei bod ar gyfnod mamolaeth. Mynegwyd cydymdeimlad â Mrs Sharon Jones ar farwolaeth ei chefnider.	The Chairman welcomed all to the meeting. An apology for her absence was received from Mrs A E Williams. Mrs Dooley absent due to maternity leave. Condolences were extended to Mrs Sharon Jones on the death of her cousin.
2. Datganiadau Diddordeb.	2. Declarations of Interest.
Dim.	None
3. Cadarnhau cofnodion 3/09/2018	3. Ratify minutes 3/09/2018
Derbyniwyd a chadarnhawyd yn gywir cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3/9/2018. Mrs C Lloyd yn cynnig a Mrs E Jones yn eilio.	The minutes of the meeting held on 3/9/2018 were ratified and accepted as a true record of the meeting. Proposed by Mrs C Lloyd and seconded by Mrs E Jones.
4. Materion yn codi:	4. Matters arising:
(a) Cais cynllunio Chwarel Gwalchmai. Yn dilyn gwahoddiad i'r Chwarel i weld ffrwydrad yn digwydd, rhoddwyd adroddiad ar yr ymweliad a'u canfyddiadau gan Mrs Sharon Jones a Mrs Edna Jones. Trafodwyd y cais cynllunio eto, a phenderfynwyd nad oedd unrhyw wrthwynebiad i'r cais. Fodd bynnag penderfynwyd y dylai'r Cyngor Sir roi cymal pe caniateir y cais, i ffrwydro ond digwydd rhwng 9am a 3.30pm o'r gloch, ac yn annog trafnidiaeth i mewn ac allan o'r chwarel i ddefnyddio'r A55 ac felly yn osgoi pentref Gwalchmai.	(a) Gwalchmai Quarry planning application. Following an invitation to visit the quarry to experience a blasting, Mrs Sharon Jones and Mrs Edna Jones gave a report on their visit and findings. The planning application was further discussed and it was decided that there were no objections to the application. However it was decided that the County Council, should they permit the application, should insert a clause in their decision stating that blasting should only take place between the hours of 9am and 3.30pm, and urging the traffic in and out of the quarry to use the A55 and thereby avoiding the village of Gwalchmai.
(b) Cae chwarae plant. Y Clerc wedi derbyn oddi wrth Mr Veervers yn cadarnhau bod adroddiad Rospa a'r ffurflenni gwirio'r maes chwarae wedi eu rhoi i Mrs Stephanie Roberts ar gyfer eu rhoi i'r Cyngor Cymuned. Gan nad oedd Mrs Roberts yn bresennol, a chan nad oedd y Clerc wedi derbyn unrhyw	(b) Children's playground. The Clerk had received an email from Mr Veervers confirming that the Rospa report and the check lists for the playground had been given to Mrs Stephanie Roberts to bring to the Community Council. As Mrs Roberts was absent from the meeting, and the Clerk had not received an y

ddogfennaeth oddi wrth Mrs Roberts, gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Mr Veevers unwaith eto ynglŷn â'r ddogfennaeth angenrheidiol.	documents from Mrs Roberts, the Clerk was requested to contact Mr Veevers again regarding the documentation needed.
(c) Japanese Knotweed. Y Cadeirydd wedi cysylltu â'r Cyngor Sir ynglŷn â hyn ac yn disgwyl ateb pellach. Mrs Sharon Jones wedi derbyn cwyn oddi wrth Mrs Sonia Jones ynglŷn â'r llwybr cyhoeddus ger eu heiddo yn cael ei dorri er bod Japanese Knotweed yn tyfu arno. Y Clerc hefyd wedi cael ymweliad gan Mr D E Parry yn dweud fod Mrs Jones wedi gofyn iddo beidio â pharhau i dorri'r llwybr. Y Clerc wedi dweud wrtho, ac wedi anfon llythyr ato yn hwyrach, yn cadarnhau na ddylai dorri unrhyw lwybr cyhoeddus sydd a Japanese Knotweed yn tyfu arno nes y caiff gyfarwyddyd pellach. Y Clerc i ysgrifennu at Mrs Sonia Jones yn cadarnhau'r sefyllfa bresennol.	(c) Japanese Knotweed. The Chairman had contacted the County Council and was awaiting a response. Mrs Sharon Jones had received a complaint from Mrs Sonia Jones regarding the cutting of the public footpath near her property when there was Japanese Knotweed growing on it. The Clerk had also had a visit from Mr D E Parry stating that Mrs Sonia Jones had requested him to stop cutting the footpath. The Clerk had told Mr Parry to cease cutting any public footpath that had Japanese Knotweed growing on it until further instructions, and had confirmed this by letter. The Clerk was requested to write to Mrs Sonia Jones to confirm the present situation.
(d) Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned. Cafwyd adroddiad gan Mrs E Jones yn dilyn cyfarfod Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned.	(d) Town and Community Councils Liaison Forum meeting. Report given by Mrs E Jones following the Town and Community Councils Liaison Forum meeting.
5. Gohebiaeth:	5. Correspondence:
(i) Un Llais Cymru:	(i) One Voice Wales:
(a) Dyddiadau newydd ar gyfer Hyfforddiant. Penderfynwyd i'r Clerc fynychu hyfforddiant ar y GDPR ym mis Ionawr 2019.	(a) New dates for Training. It was decided that the Clerk attend the GDPR training in January 2019.
(b) Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru. Trafodwyd a derbyniwyd er gwybodaeth.	(b) 2018 Review of Parliamentary Constituencies in Wales. Discussed and accepted for information.
(ii) Cyngor Sir Ynys Môn:	(ii) Isle of Anglesey County Council:
(a) Rhybudd Derbyn Cais Cynllunio fel a ganlyn: Rhif Cais: 48C102C. Cais llawn ar gyfer creu ménage i ddefnydd preifat yn unig ar dir yn Pumllog. Trafodwyd y cais. Dim sylwadau.	(b) Notice of Receipt of Planning Permission as follows: App.No. 48C102C. Full application for the construction of a ménage for private use only on land at Pumllog. Application discussed. No comments.
(b) Rhif Cais: 48C207B - Cais amlinellol ar gyfer codi annedd sydd yn cynnwys manylion llawn am y fynedfa ar dir ger Frondeg. Y cais wedi'i dynnu'n ôl.	(b) App.No: 48C207B – Outline application for the erection of a dwelling together with full details of the vehicular access on land adjacent to Frondeg. The application has been withdrawn.

(c) Ymgynghoriad ar y Datganiad draft o Bolisi Gamblo 2019-2022. Trafodwyd a derbyniwyd er gwybodaeth.	(c) Consultation on draft Statement of Gambling Policy 2019-2022. Discussed and accepted for information,
(iii) CAB Ynys Môn. Gwahoddiad i'w Cyfarfod Blynyddol 25/10/2018 yng Nghanolfan Ucheldre, Caergybi am 4pm. Neb yn rhydd I dderbyn y gwahoddiad.	(iii) Anglesey CAB. Invitation to their AGM on 25/10/2018 at Ucheldre Centre, Holyhead at 4pm. No one available to accept the invitation.
(iv) Post Brenhinol. Gwybodaeth am Sgâm drwy'r post. Y poster wedi'i osod ar hysbysfwrdd y Cyngor Cymuned.	(iv) Royal Mail. Information regarding Scam mail. The poster displayed on the Community Council's noticeboard.
6. Materion ariannol	6. Financial matters
(a) Anfoneb Moss Computers. £42.00 – galwad allan – (cyswllt yr argraffydd newydd i liniadur y Cyngor ddim yn gweithio). Y Clerc i dalu'r anfoneb.	(a) Invoice Moss Computers. £42.00 call out fee – (connection of new printer to Council's laptop not working). The Clerk to pay the invoice.
(b) Archwiliad allanol. Ffurflen flynyddol wedi'i dychwelyd gan BDO. Derbyniwyd adroddiad glân. Ar sail eu hadolygiad, yn eu barn hwy, mae'r wybodaeth yn y Ffurflen Flynyddol yn cydymffurfio ag arferion priodol ac nid oes unrhyw faterion wedi dod i'w sylw sy'n peri pryder nad yw'r ddeddfwriaeth a'r gofynion rheolaeth perthnasol wedi'u bodloni.	(b) External Audit. Annual Statement returned by BDO. A clean report was received. On the basis of their review, in their opinion, the information contained in the Annual Return is in accordance with the proper practices and no matters have come to their attention giving cause for concern that relevant legislation and regulatory requirements have not been met.
(c) Adolygu'r gyllideb. Trafodwyd a derbyniwyd adroddiadau'r Clerc sy'n dangos bod digon o incwm a chronfeydd i gynnal costau hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol.	(c) Review budget. The Clerk's reports, which confirmed that there was sufficient income and money in reserve to cover costs to the end of the financial year, were discussed and accepted
(d) Npower. Cyflenwad trydan i'r cloc 1/6/18 – 1/09/18 £24.08. Hwn wedi'i dalu debyd uniongyrchol.	(d) Npower. Electricity supply to clock 1/6/18 – 1/9/18. Paid by direct debit.
7. Unrhyw fater arall yn ôl doethineb y Cadeirydd.	7. Any other matter at the Chairman's discretion.
(a) Cwynion. Atgoffodd y Clerc y Cyngorwyr na ddylid derbyn cwynion ar lafar. Dylai pob cwyn gael ei gwneud trwy lythyr neu dros e-bost wedi'i gyfeirio at y Clerc neu at Gynghorydd	(a) Complaints. The Clerk reminded the Councillors that complaints by word of mouth should not be accepted. All complaints should be done by letter or by email addressed to the Clerk or to a Councillor.
CYFARFOD NESAF: Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Lun 5 Tachwedd 2018 am 7pm yn Neuadd yr Henoed.	NEXT MEETING: The next meeting will be held on Monday 5 November 2018 at 7pm at the Pensioners' Hall.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.45pm.

Meeting ended at 7.45pm.